y cerddwyr
ramblers cymru

Brexit a'n Tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru

Ymateb Ramblers Cymru

Sylwadau Cyffredinol

Mae Ramblers Cymru yn croesawu uchelgais Llywodraeth Cymru i fabwysiadu dull newydd o reoli tir yng Nghymru a fydd yn diogelu ac yn gwella mynediad i'r awyr agored at bwrpas hamdden fel nwydd cyhoeddus.

Credwn mai rhwydwaith hawliau tramwy cryf yw asgwrn cefn tirwedd fwy agored a hygyrch. Mae rhan rheolwyr tir yn allweddol gan mai hwy a all sicrhau bod llwybrau'n cael eu cofleidio fel asedau cymunedol o'r pwys mwyaf a fydd yn rhoi hwb i iechyd a lles pobl ac yn dod â manteision economaidd drwy ddenu ymwelwyr.

Mae Ramblers Cymru yn barod i weithio gyda rheolwyr tir a'r Llywodraeth, drwy gydweithredu ac mewn partneriaethau, i gysylltu pobl â'u hardaloedd lleol ac â thirweddau ehangach drwy'r rhwydwaith o lwybrau a chefn gwlad agored.

Y Cynllun Nwyddau Cyhoeddus

Cw8. *Rydym wedi nodi ein paramedrau arfaethedig ar gyfer y cynllun nwyddau cyhoeddus. A ydynt yn briodol? Fyddech chi'n newid unrhyw beth? Os felly, beth?*

Cytunwn â pharamedrau'r cynllun, gan gynnwys hepgor bwyd fel nwydd cyhoeddus. Yn unol â'r farn a fynegwyd gan Gyswllt Amgylchedd Cymru, a sefydliadau eraill fel yr Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, cytunwn nad yw cynnwys bwyd yn briodol ac y gellir cefnogi hyn orau drwy'r Cynllun Cadernid. Ni fyddai cynnwys bwyd fel nwydd cyhoeddus yn arwain at y newid trawsnewidiol sydd ei angen i sicrhau cynaliadwyedd tymor-hir amgylchedd Cymru – byddai yn lle hynny'n tynnu'r rhan fwyaf o'r arian sydd ar gael i ffwrdd o'r nwyddau cyhoeddus 'dim marchnad' ac yn arwain at ymagwedd 'busnes fel arfer' at reolaeth tir. Gallai arwain at system cynhyrchu bwyd nad yw'n cyd-fynd â gwir anghenion y farchnad.

Hamdden a Threftadaeth

Cefnogwn yn gryf gynnwys treftadaeth a hamdden o fewn cwmpas y cynllun. Mae cysylltiad agos rhwng treftadaeth a hamdden, a bydd cynyddu eu hygyrchedd a'u hansawdd i'r eithaf

yn hanfodol er mwyn gwireddu'r uchelgais i gadw pobl ar y tir a diogelu dyfodol cymunedau gwledig.

Mae manteision cymdeithasol ac economaidd yn deillio o fynediad cyhoeddus o safon uchel i gefn gwlad at bwrpas hamdden, yn enwedig mynediad ar gyfer cerdded. Er enghraifft, mae astudiaeth gan y Cerddwyr a Chymorth Canser Macmillan wedi dangos bod gweithgarwch corfforol yn arwain at gynnydd o 3 i 5 mlynedd mewn disgwyliad oes (De Moor. 2013). Mae astudiaethau wedi dangos yn glir fod yna gysylltiad agos rhwng mwynhau natur a buddion iechyd meddwl fel lleihau straen, pryder a symptomau anhwylder gorfywiogrwydd diffyg canolbwyntio (ADHD) mewn plant (UCL Institute of Health Equity & Public Health England. 2014).

Yn ôl adroddiad gan Gyfoeth Naturiol Cymru, cafodd tua 43.447 miliwn o deithiau cerdded eu gwneud i arfordir Cymru yn 2014. Mae'r corff wedi amcangyfrif bod gwariant uniongyrchol oedolion ar y teithiau hyn yn agos at £547 miliwn a bod y gwariant net yn £401 miliwn (McDonough & Roche. 2016).

Mae gennym rwydwaith o hawliau tramwy eisoes a fu'n rhan o'n treftadaeth ers amser maith, yn enghraifft fyw o hanes a diwylliant Cymru sydd â llawer iawn o botensial o hyd. Rhwydwaith cynhwysfawr ydyw, wedi'i fapio'n dda, sydd wedi datblygu dros gannoedd o flynyddoedd, a thros filoedd o flynyddoedd mewn rhai achosion. Fodd bynnag, mae angen gofalu amdano'n barhaus – mae rhai o'r problemau ar y rhwydwaith yn cael eu hachosi gan ddiffyg buddsoddiad a gwaith cynnal gwael. Mae'r cynllun nwyddau cyhoeddus hwn yn cynnig cyfle i sicrhau bod hawliau tramwy yn agored, yn hygyrch, ac yn cael eu cofleidio fel gwir asedau cymunedol sy'n cysylltu pobl â'u hardaloedd lleol ac â thirweddau ehangach.

Hefyd dylai'r cynllun nwyddau cyhoeddus warantu a gwella hawliau mynediad – i dir cyffredin ac i dir sydd wedi'i ddiffinio o dan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Nwyddau cyhoeddus sy'n seiliedig ar dystiolaeth

Mae 'trawsgydymffurfio' yn arf defnyddiol ar gyfer sicrhau bod y rhwydwaith presennol o hawliau tramwy'n cael ei gynnal a bod tystiolaeth i hyn gael ei gyflawni. Sut bynnag, mae nifer o ffactorau'n effeithio ar ei effeithiolrwydd, gan gynnwys:

- maint bach iawn y sampl archwilio a fabwysiadwyd gan Lywodraeth Cymru
- y ffaith nad oes proses ddiffiniedig ar gyfer cyfathrebu rhwng Swyddogion Gorfodi ac awdurdodau priffyrdd (fel y cyrff gorfodi perthnasol)

y cerddwyr
ramblers cymru

- y ffaith na fydd y Swyddogion Gorfodi yn gweithredu ar nac yn derbyn adroddiad am rwystrau gan aelod o'r cyhoedd (gan gynnwys y rheiny sy'n cynrychioli corff cenedlaethol)

Credwn y gellid gwella effeithiolrwydd monitro a gorfodi'r cynllun nwyddau cyhoeddus, a lleihau'r costau, fel a ganlyn:

a) Caniatáu i Swyddogion Gorfodi weithredu ar unwaith pan dderbyniant wybodaeth gan awdurdodau priffyrdd yn lle gofyn am ail archwiliad gan Swyddogion y Llywodraeth. Gall swyddogion priffyrdd lleol ddarparu tystiolaeth i safon sy'n ofynnol mewn llys, felly dylai hyn fod yn ddigon at ddibenion gorfodi a bydd yn arbed arian cyhoeddus drwy leihau costau gweinyddol.

b) Sefydlu trefn lle gall aelodau'r cyhoedd ddefnyddio eu ffonau symudol i anfon lluniau o ddiffyg cydymffurfio yn uniongyrchol at dimau Gorfodi. Byddai geo-leoliad gan y lluniau hyn ac felly gallent nodi diffyg cydymffurfio a ble'n union mae, gan helpu'r Swyddogion i fynd yn syth at y broblem.

Ychwanegedd

Mewn perthynas â'r paramedr Ychwanegedd, cytunwn y dylai'r canlyniadau a gyflawnir fod uwchlaw'r lefel sy'n ofynnol ar gyfer cydymffurfio â rheoliadau.

Bu'n bryder gan Ramblers Cymru ers amser maith nad oedd derbyn y Taliad Fferm Sylfaenol yng Nghymru yn amodol ar drawsgydymffurfio â deddfwriaeth hawliau tramwy. Yn wahanol i Loegr, mae hyn wedi caniatáu i reolwyr tir sydd wedi torri eu dyletswyddau cyfreithiol o dan Ddeddf Priffyrdd 1980 barhau i dderbyn arian cyhoeddus. Ni chredwn fod hyn yn dderbyniol ac ni ellir gadael i'r sefyllfa hon barhau.

Yn 2015 fe gynhaliodd y Cerddwyr arolwg cenedlaethol[1] gyda'r nod o ddeall yn well gyflwr y rhwydwaith o lwybrau. Roedd cyfran sylweddol (14 y cant) o'r problemau y daethpwyd ar eu traws yn rhai y mae perchnogion tir yn gyfrifol amdanynt. Gwyddom, sut bynnag, mai anaml y cosbir perchnogion tir nad ydynt yn cyflawni eu dyletswyddau mewn perthynas â hawliau tramwy.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y naill gynllun neu'r llall, dylai rheolwyr tir orfod cydymffurfio â'r rheoliadau a rhaid i hyn gynnwys y ddeddfwriaeth ar hawliau tramwy a mynediad agored. Yna gall ychwanegedd ddod o:

- Creu llwybrau parhaol newydd neu fannau mynediad parhaol i dir mynediad agored

[1] http://www.ramblers.org.uk/get-involved/pathwatch/the-state-of-our-paths-report.aspx

- Creu llwybrau ‘dolen goll’ i gysylltu’r rhwydweithiau presennol yn well
- Gwella diogelwch neu hygyrchedd llwybrau, er enghraifft, llwybrau ar hyd ymylon caeau i osgoi ffyrdd gwledig anniogel neu gul
- Creu mynediad i goetir ar ffermydd
- Tynnu cyfyngiadau ar lwybrau – e.e. darparu gatiau neu fylchau yn lle camfeydd
- Creu dolennau a chysylltau i gymunedau neu leoedd o ddiddordeb, lleoedd gwyrdd, canolfannau cludiant, neu lwybrau ‘wedi’u hyrwyddo’
- Gwell hyrwyddo ac ymgysylltu â’r cyhoedd i’w hannog i ddefnyddio eu tir at bwrpas hamdden
- Cynnwys, lle bo’n briodol, arwyddion i egluro lle mae nwyddau cyhoeddus ychwanegol yn cael eu diogelu drwy daliadau cyhoeddus, a thrwy hynny helpu i wella dealltwriaeth y cyhoedd o’r ffyrdd niferus y mae’r gymuned amaethyddol yn darparu buddion i’r gymuned.

Mae’n bwysig nad yw unrhyw ganlyniadau sy’n cynnwys creu coetiroedd a choedwigoedd newydd yn cael effaith negyddol ar lefelau o fynediad cyhoeddus. Os cyflwynir cymhellion ariannol i blannu coed ar fynyddoedd, gweundiroedd, rhostiroedd a thwyndiroedd, lle mae gan bobl hawl mynediad agored ar hyn o bryd o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, y canlyniad anfwriadol fyddai colli hawliau mynediad. Rhaid i’r Llywodraeth ymrwymo i sicrhau na fydd hawliau mynediad yn cael eu colli yn sgil cynlluniau plannu coed sy’n derbyn cymhorthdal cyhoeddus. Fel y nodir yn ein hymatebion yn 2015 a 2017 i ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ar fynediad, byddem yn croesawu cynnwys coetir fel tir mynediad agored o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Cymorth ymgynghorol i reolwyr tir

Wrth ddarparu cymorth ymgynghorol sy’n gysylltiedig â mynediad hamdden, rhaid manteisio ar arbenigedd a gwybodaeth yr awdurdodau priffyrdd lleol sy’n meddu ar wybodaeth helaeth am gyflwr y rhwydwaith o lwybrau, gan gynnwys problemau hanesyddol neu barhaus. Mae gan bob awdurdod Gynllun Gwella Hawliau Tramwy a dylid sicrhau bod arian ar gael i roi’r cynlluniau hyn ar waith ar hyd a lled Cymru, fel rhan o unrhyw ddull newydd o reoli tir.

Dylai swyddogion hawliau tramwy awdurdodau lleol gael pwerau a chyllid gan gynghorau i ddarparu hyfforddiant a chyngor, a chymorth lle bo’n briodol, i helpu rheolwyr tir i roi’r gwelliannau angenrheidiol ar waith. Gallai hyn gynnwys manteisio ar y nifer fawr o dimau cynnal llwybrau gwirfoddol ledled Cymru, yr arweinir llawer ohonynt gan y Cerddwyr.

Dylai'r Fforymau Mynediad Lleol gael eu cryfhau a dylid rhoi grym iddynt ddarparu cyngor a throsolwg strategol o'r blaenoriaethau mynediad yn eu hardaloedd hwy. Bydd yn bwysig edrych ar y rhwydwaith lleol yn ei gyfanrwydd ac ar le daliadau tir unigol o'i fewn. Bydd yr ymagwedd strategol hon o gymorth i lunio rhwydwaith mwy cydlynol sy'n bodloni anghenion ac uchelgeisiau cymunedau lleol.

Gall cyrff trydydd sector, gan gynnwys Ramblers Cymru, ddarparu hyfforddiant a chyngor perthnasol hefyd, drwy eu staff ac aelodau ar hyd a lled Cymru. Yn ogystal, gallwn helpu i ennyn diddordeb y gymuned yn y rhwydwaith o lwybrau a gallwn, drwy grwpiau lleol, roi cyngor ar flaenoriaethau lleol ac ar welliannau angenrheidiol i lwybrau.

Cw10. *A oes unrhyw nwyddau cyhoeddus eraill y dylid eu cefnogi yn eich tyb chi? Os felly, pam?*

Fel y crybwyllwyd o dan gwestiwn 8, hoffem weld y mater ehangach o warantu mynediad cyhoeddus i leoedd agored yn cael ei ddiffinio'n gliriach, yn unol â pharamedrau'r cynllun hwn. Mae hyn ymhlyg, ond nid yn gwbl glir, yn y trosolwg Treftadaeth a Hamdden a geir o dan adran 6.15 yn yr ymgynghoriad.

Cw12. *Gallai dull cydweithredol o ddarparu nwyddau cyhoeddus ddarparu mwy o werth am arian na gweithgarwch ar wahân mewn rhai achosion. Sut gallai'r cynllun hwyluso'r dull hwn? Sut gallai cyrff cyhoeddus a phreifat gyfrannu at bartneriaethau o'r fath?*

Cydweithio a chyflawni ar raddfa

Fel y nodwyd uchod, mae cydweithio a graddfa yn bwysig mewn perthynas â mynediad a llwybrau, oherwydd yn y pen draw yr hyn rydym ei eisiau yw rhwydwaith o lwybrau y gellir ei ddefnyddio ac sy'n rhesymegol a deniadol. Mae'r llu o ddolennau coll a llwybrau ag aliniad anfoddhaol yn broblem y gellir mynd i'r afael â hi orau drwy gydweithio er mwyn sicrhau bod llwybrau'n uno â'i gilydd ac yn mynd â phobl i'r lleoedd maent hwy'n dymuno mynd iddynt. Gall peth o'r cydweithio hwn ddigwydd drwy Fforymau Mynediad Lleol, a thrwy gynlluniau gwella hawliau tramwy awdurdodau lleol.

Mae cydweithio'n hanfodol mewn meysydd llunio polisi eraill hefyd, yn enwedig cynllunio teithio llesol – mae llwybrau troed, llwybrau beicio a llwybrau ceffyl yn asedau lleol pwysig, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, ac ni ddylid anghofio am eu potensial ar gyfer hyrwyddo'r agenda teithio llesol.

y cerddwyr
ramblers cymru

Cw15. *Mae buddsoddi'n breifat mewn prynu nwyddau cyhoeddus eisoes yn digwydd, ond ar raddfa gymharol fach. Sut gallai'r cynllun newydd hybu mwy o ymwneud gan y sector preifat? Beth yw'r rhwystrau i'r math yma o fuddsoddiad?*

Wrth ddenu buddsoddiadau preifat, ni fyddem am weld 'masnacheiddio' cefn gwlad. Er enghraifft, rhaid i gefnogaeth fasnachol i welliannau hamdden beidio ag arwain at 'frandio' arwyddion neu gelfi ar lwybrau mewn ffordd sy'n amharu ar harddwch yr amgylchedd ac yn creu annibendod yng nghefn gwlad.

Tryloywder

Un o fethiannau'r cynllun Glastir yw'r diffyg gwybodaeth ynghylch y ffermydd sy'n cymryd rhan. O dan y cynlluniau newydd, bydd yn hanfodol darparu gwybodaeth gyhoeddus glir a hygyrch am y tir sy'n rhan o'r cynllun a'r gwelliannau sy'n cael eu gwneud. Bydd mapio da yn allweddol yn hyn o beth, a rhaid i hawliau tramwy a thir mynediad agored gael eu cynnwys ar fapiau a ddefnyddir fel rhan o'r cais ac mewn unrhyw wybodaeth i'r cyhoedd.

Hefyd rhaid iddi fod yn bosibl i unigolion sy'n dod ar draws achos posibl o ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau roi gwybod am y mater i'r awdurdod priodol fel y gellir ymdrin ag ef.

Cw20. *Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach?*

O dan bennod 7, 7.1 i 7.2, cyfeirir at y fframwaith rheoleiddiol mewn termau cyffredinol, a sonnir am drawsgydymffurfio. Fel y nodwyd yn gynharach yn ein hymateb, bu diffyg trawsgydymffurfio yn wendid o ran y modd y mae Cymru wedi gweithredu polisi amaethyddol. Bu diffyg gorfodi mewn perthynas â'r ychydig o drawsgydymffurfio a gafwyd o dan y cynllun Glastir, ac ni fyddai hyn yn dderbyniol yn y dyfodol.

Cefnogwn nod Llywodraeth Cymru i greu set symlach a mwy cydlynol o reoliadau. Er mwyn i hyn fod yn hollgwmpasog, awgrymwn y dylai'r Llywodraeth gynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid cynrychiadol, gan gynnwys arbenigwyr o'r sector hawliau tramwy a mynediad. Dylid rhoi grym i'r Fforwm Mynediad Cenedlaethol, sy'n cael ei alw ynghyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru, chwarae rôl fwy ystyrlon wrth lunio rheoliadau yn y dyfodol, a byddai Ramblers Cymru yn defnyddio eu haelodaeth o'r corff hwn i gyfrannu at y trafodaethau pwysig a strategol hyn.

Er mwyn datblygu cynllun y mae'n llai anodd cydymffurfio ag ef a'i orfodi, awgrymwn greu prosesau ffurfiol sy'n galluogi'r cyhoedd i roi gwybod am achosion o fethu â chydymffurfio. Yn olaf, cynghorwn Lywodraeth Cymru i ymgynghori ag arbenigwyr lleol pan fo raid i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu yn ffordd orau bosibl a bod trawsgydymffurfio'n cael ei orfodi'n llwyddiannus.